# Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI

# DANGOSYDDION PERFFORMIAD GWERTH GORAU 2001/2002 – CANLYNIAD YR YMGYNGHORI

## Diben

1. Cyflwyno’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Pwyllgor yn dilyn y broses ymgynghori a gynhaliwyd yn ddiweddar ar Ddangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau’r Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer 2001/2002, ac i adrodd yn ôl ar sylwadau’r sawl yr ymgynghorwyd â hwy ar y newidiadau i’r dyddiad cyhoeddi ar gyfer y Cynlluniau Perfformiad Gwerth Gorau.

## Argymhelliad

2. Nodi’r ymatebion i’r ymgynghoriad diweddar ar Ddangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau ar gyfer 2001/2002.

3. Nodi y bydd y Cynlluniau Perfformiad Gwerth Gorau yn cael eu cyhoeddi ar 30 Mehefin 2001, ac y caiff y cynlluniau hyn eu harchwilio erbyn 31 Hydref 2001. Dyma’r sefyllfa fel y mae wedi ei amlinellu yng Ngorchymyn Llywodraeth Leol (Gwerth Gorau) (Adolygiadau a Chynlluniau Perfformiad) (Cymru) 2000 Rhif 1271 (W.97). Ni fydd yn ofynnol cynhyrchu cynllun drafft erbyn 31 Mawrth.

## Amseru

4. Mae Gorchymyn yn ofynnol er mwyn darparu grym statudol i’r Dangosyddion Perfformiad ar gyfer awdurdodau Gwerth Gorau yng Nghymru ar gyfer 2001-2002. Bydd hyn ar waith erbyn 1 Ebrill 2001.

Bydd canllawiau manwl ar gael gyda’r Gorchymyn.

## Cefndir

5. Trafodwyd y Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau arfaethedig gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 15 Tachwedd 2000. Dosbarthwyd y ddogfen ymgynghori ar 1 Rhagfyr gyda chais am ymatebion erbyn 31 Ionawr. Derbyniwyd 77 ymateb i'r ymgynghoriad hyd yma ac mae crynodeb o'r ymatebion ar gael yn .

6. Roedd y ddogfen ymgynghori yn nodi cyfres llawer llai o ddangosyddion perfformiad sydd wedi eu hail lunio er mwyn gosod mwy o bwyslais ar ganlyniad ac allbwn y gwasanaethau a ddarperir gan yr awdurdodau Gwerth Gorau. Gofynnwyd i'r sawl yr ymgynghorwyd â hwy wneud sylwadau ar y dangosyddion arfaethedig (wedi eu gostwng o 172 yn 2000/2001 i 83 ar gyfer 2001/2002).

7. Roedd y sawl yr ymgynghorwyd â hwy yn cefnogi'r lleihad yn nifer y dangosyddion, a'r ffaith bod dangosyddion y Comisiwn Archwilio a dangosyddion Gwerth Gorau yn awr yn cael eu cyfuno i greu un gyfres sef dangosyddion y Cynulliad Cenedlaethol. Mynegwyd peth pryder bod y dangosyddion yn seiliedig ar gost wedi eu dileu er bod y papur eglurhaol yn egluro y dylid parhau i gasglu'r wybodaeth yn seiliedig ar gost/ mewnbwn oherwydd ei fod yn wybodaeth sy'n angenrheidiol ar gyfer rheoli gwasanaethau o ddydd i ddydd mewn modd cadarn.

8. Roedd nifer o'r sawl yr ymgynghorwyd â hwy wedi crybwyll y ffaith eu bod yn wahanol i ddangosyddion Lloegr, fyddai'n golygu llai o bosibilrwydd o gymharu ar draws ffiniau. Fodd bynnag, mae'r dangosyddion oedd yn destun ymgynghoriad gan y Cynulliad wedi cael eu hail lunio i gynnwys blaenoriaethau Cymru a'r mentrau sydd ar waith yng Nghymru. Ni ddylai fod yn anodd sefydlu cysylltiadau cymharol gydag awdurdodau tebyg yn Lloegr, yr Alban ac Iwerddon er mwyn hwyluso cymariaethau defnyddiol a chynhyrchiol.

9. Codwyd nifer o bwyntiau gan yr awdurdodau ar ddangosyddion a diffiniadau unigol, a chaiff llawer o'r rhain eu hystyried wrth ddrafftio'r Gorchymyn a'r canllawiau.

10. O ganlyniad i bryderon penodol a godwyd gan y sawl yr ymgynghorwyd â hwy, aseswyd, **dau** ddangosydd a phenderfynwyd eu cynnwys eto er mwyn sicrhau bod gwasanaethau penodol yn cael eu cynrychioli.

11. Penderfynwyd cynnwys dangosydd rhestr wirio ar gyfer gorfodaeth Safonau Masnach sy'n helpu i gefnogi menter Swyddfa'r Cabinet i roi Concordat Gorfodaeth ar waith ledled Prydain.

12. Cafwyd cynrychiolaeth gref gan Gymdeithas y Crwydrwyr (14 ymateb) yn gofyn am gynnwys dau ddangosydd y Comisiwn Archwilio ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus sy'n ymwneud ag 'arwyddion' a 'bod yn hawdd i'w defnyddio'. Mae Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau wedi ail gyflwyno dangosydd wedi ei gyfuno i'r perwyl hwn yn Lloegr a bwriedir ei gynnwys yn nangosyddion Cymru hefyd.

13. Lleisiwyd cefnogaeth gref gan yr awdurdodau o blaid cyhoeddi eu Cynllun Perfformiad Gwerth Gorau ar 30 Mehefin heb yr angen am gynllun drafft erbyn 31 Mawrth.

**Themâu Trawsbynciol**

14. Datblygwyd y dangosyddion diwygiedig gyda chydweithrediad llawer o sefydliadau partner gan gynnwys llywodraeth leol, cyrff technegol a'r sector gwirfoddol. Mae'r Cynulliad wedi bod yn awyddus iawn i gysylltu meysydd allweddol Cyfle Cyfartal a Datblygu Cynaliadwy gyda'r gyfundrefn Gwerth Gorau.

15. Cafodd y Comisiwn Cyfle Cyfartal, Comisiwn Hawliau'r Anabl a'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol eu cynnwys yn y broses ymgynghori er mwyn adolygu'r dangosyddion arfaethedig a chynnal pwyslais yn y meysydd hyn. Ar hyn o bryd mae'r cyrff cydraddoldeb yn asesu'r ffordd fwyaf effeithiol o gynnwys cydraddoldeb yn y fframwaith gwerth gorau. Bydd darganfyddiadau a chanlyniadau'r prosiectau hyn yn cael eu harchwilio gyda golwg ar eu cynnwys yn y dangosyddion ar gyfer 2002-2003.

**Cyswllt**

Natalina Cottrell

Moderneiddio Llywodraeth Leol 3

Est: 82 3642